**Atodiad B: Ffurflen Asesu Effaith ar Gydraddoldeb (gan gynnwys Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol)**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n fwy cyfartal sy'n rhan annatod o:

- Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal – Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 – MANYLION Y CYNNIG**

**Swyddog Arweiniol:** Lisa Howell

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** Andrea Richards

**Maes Gwasanaeth:** Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

**Dyddiad:** 04.09.2024

1.a) **Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?**

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu neu Gau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Safbwynt |
|---|---|---|---|---|
| X | | | | |

1.b) **Beth yw enw'r cynnig?**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [y Cyngor] yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i ysgol cyfrwng Saesneg.

1.c) **Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.**

Cynnig i sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed yn rhan o ddatblygiad tai Llanilid a'r cynnig i newid cyfrwng iaith Ysgol Gynradd Dolau o ysgol sydd â dwy ffrwd iaith i Ysgol Cyfrwng Saesneg. Cynigir y bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn agor erbyn blwyddyn academaidd 2027, gyda lle i 480 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6), a 60 ar gyfer disgyblion oed meithrin, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn dod yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg ar yr un pryd, gyda chapasiti mwy o 488 ynghyd â 63 o leoedd meithrin.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy’n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir.
- Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir.

1.d) **Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.**

Mae pwerau i Gynghorau ddatblygu cynigion trefniadaeth ysgolion yn cael eu llywodraethu gan:

- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2[il] Rifyn) (011/2018).

Rhaid i gynghorau, wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 3 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol a gynhwysir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2[il] Rifyn) (011/2018) a rhaid iddo roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.

1.e) **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio:**

- Defnyddwyr y Gwasanaeth: X
- Gweithwyr: X
- Y Gymuned Ehangach: X

## ADRAN 2 – PRAWF SGRINIO: A OES ANGEN ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| NODWEDD WARCHODEDIG | A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL? | RHOWCH FANYLION YR EFFAITH | PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA? |
|---|---|---|---|
| **1. OEDRAN:**<br><br>*(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn).* | Cadarnhaol. | Pobl Ifainc (h.y. Pobl Oed Ysgol)<br><br>1. Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar gyfer 2024 yn nodi bod 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau. Caiff 155 o ddisgyblion oedran ysgol statudol eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg a chaiff 311 o ddisgyblion o | **Pobl Ifainc (h.y. Pobl Oed Ysgol)**<br><br>1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â <u>Bwletin Adeiladu 99</u>, bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â <u>Deddf Cydraddoldeb 2010</u>. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oedran ysgol statudol eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg.<br><br>Mae data CYBLD yn dangos erbyn blwyddyn academaidd 2028/2029 y bydd -2.3% o gapasiti oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae modd gweld y rhagolygon manwl o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Dolau dros y pum mlynedd academaidd i ddod ar dudalen 8 y Ddogfen Ymgynghori.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl ifainc o bob oed. O ganlyniad i'r cynnig, mae disgwyl i'r Cyngor wella addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg a chynyddu nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd trosglwyddo disgyblion sy'n cael eu | • Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol (ADY).<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ragor o ddisgyblion gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn amgylchedd sy'n addas i ddysgu ac addysgu yn y 21ain ganrif.<br><br>Yn ogystal â hyn, bydd Ysgol Gynradd Dolau yn derbyn cyllid ar gyfer gwelliannau trwy Raglen Gyfalaf Cyngor Rhondda Cynon Taf.<br><br>2. Rydyn ni'n rhagweld na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol tymor hir ar ddisgyblion. Rydyn ni'n deall y bydd rhai disgyblion efallai'n teimlo'n bryderus ar y dechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth | Dengys data mai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sydd â'r ganran uchaf o ddisgyblion oedran ysgol statudol sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â Chynghorau eraill sy'n rhan o Wasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De.<br><br>Mae 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled Rhondda Cynon Taf. Mae dwy ysgol bob oed ar gyfer disgyblion 3 i 19 oed, un ysgol gynradd dwy iaith ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed a 14 o ysgolion cynradd ar gyfer disgyblion 3 i 11 oed.<br><br>Targed y Cyngor, yn ystod oes deng mlynedd ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yw:<br><br>*Cynyddu canran y dysgwyr ym Mlwyddyn Un sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 8% a 12% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | wedi'i dargedu ar gyfer holl ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau. Mae proses bontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol.<br><br>**Aelodau o Staff**<br>1. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ein bwriad yw argymell i Gorff Llywodraethu dros dro'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd arfaethedig a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Dolau, fod unrhyw swyddi sydd eu hangen i sefydlu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ac i Ysgol Gynradd Dolau ddod yn ysgol gynradd | *Cymraeg yma. Mae hyn yn cyfateb i dyfu’r niferoedd o 506 o ddisgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg i rhwng 720 ac 825 o ddisgyblion.*<br><br>Yn ogystal â'r targed i gynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys saith deilliant neu faes sy'n nodi sut y mae disgwyl i Awdurdodau Lleol wella addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn eu hardal. Bydd y cynnig yma'n cynorthwyo Cyngor Rhondda Cynon Taf i gyflawni'r targedau yma.<br><br>2. Bydd y Cyngor yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd Dolau i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder ag sy'n bosibl. Mae gan y Cyngor lawer o brofiad o agor ysgolion newydd ac mae'r broses o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfrwng Saesneg, islaw lefel uwch arweinwyr, yn cael eu clustnodi i'r staff presennol a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau yn y lle cyntaf. Mae'r broses yma'n golygu y byddai staff Ysgol Gynradd Dolau yn cael y cyfle cyntaf i wneud cais am swyddi ychwanegol, cyn i unrhyw swyddi gael eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, bydden nhw'n trosglwyddo pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. Bydd Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor yn ymweld â phob aelod o staff Ysgol Gynradd Dolau a'u gwneud nhw i gyd yn effro i'r prosesu sydd ar ddod a'r holl gymorth sydd ar gael.<br><br>**Pobl hŷn (h.y rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach)** | drosglwyddo disgyblion cysylltiedig yn rhan sylfaenol o'r broses yma ac yn cael ei reoli'n dda gan swyddogion y Cyngor mewn partneriaeth â staff yr ysgol.<br><br>**Aelodau o Staff**<br>1. Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Dolau yn cyflogi 57 aelod o staff. Mae proffil oedran y staff a gaiff eu cyflogi yn Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd fel a ganlyn:<br><br>• 15 i 24 – 3 aelod o staff<br>• 25 i 34 – 15 aelod o staff<br>• 35 i 44 – 14 aelod o staff<br>• 45 i 55 – 20 aelod o staff<br>• 55 i 64 – 3 aelod o staff<br>• 65 oed a hŷn – 2 aelod o staff.<br><br>**Pobl Hŷn (h.y. Rhieni/Gwarcheidwaid a'r Gymuned Ehangach)**<br><br>1. Tra bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau gwahanol, un o nodau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 1. Defnydd gan y gymuned leol a thrydydd parti | Rhaglen Waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw gwreiddio defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg, a hynny wedi'i gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder ac erydu sgiliau Cymraeg, fel y cyfryw, ac er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen cynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd pobl hŷn (h.y. rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach), ynghyd â disgyblion, yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgol gynradd ac uwchradd er mwyn gwella eu hyder a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.<br><br>Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol, rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach elwa ar hyn.<br><br>Mae cyfleusterau cymunedol a gafodd eu creu yn rhan o brosiectau blaenorol Rhondda Cynon Taf wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd gan grwpiau cymunedol, gan gynnwys Ysgol Gyfun Y Pant, sydd wedi adrodd yn flaenorol bod tîm pêl-rwyd Miskin |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Magpies a Chlwb Athletau Pont-y-clun yn defnyddio ei chyfleusterau chwaraeon newydd. Mae'r ysgol hefyd wedi adrodd yn flaenorol bod Band Chwythbrennau Cymunedol a Cherddorfa Symffoni Cwm Rhondda wedi defnyddio cyfleusterau perfformio ar y safle.<br><br>Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch a bydd modd i bawb ei defnyddio. |
| **2. ANABLEDD:**<br><br>*(Pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br><br>Ni fydd gan yr adeilad cwbl hygyrch unrhyw rwystrau mynediad i ddisgyblion, staff, rhieni/gwarcheidwaid na'r gymuned ehangach.<br><br>Cafodd Ysgol Gynradd Dolau ei hadeiladu tua 1928 a chafodd adeilad ysgol newydd ychwanegol ei hychwanegu yn 2009. Mae'r | 1. Bydd yr adeilad newydd yn gwbl hygyrch i bawb, gyda mynedfeydd gwastad, cyfleusterau dolenni sain, arwyddion braille, toiledau hygyrch ac ystafelloedd hylendid, a dodrefn y mae modd addasu eu huchder.<br><br>Nid oes unrhyw Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu ADY yn Ysgol Gynradd Dolau.<br><br>Mae gan Ysgol Gynradd Dolau 12 o ddisgyblion ag ADY, ac nid oes gan yr un ohonyn nhw anghenion corfforol. Pe bai'r cynnig yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adeilad presennol yn Adeilad Rhestredig Gradd ll felly mae cyfyngiadau ar ba waith mae modd ei wneud. Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gynhaliwyd gan Gyngor Rhondda Cynon Taf yn 2019, mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i graddio'n B o ran ei chyflwr a gradd B o ran addasrwydd. Mae hyn yn golygu bod Ysgol Gynradd Dolau mewn cyflwr da o ran cyflwr ac addasrwydd. Mae'r adeilad newydd yn Ysgol Gynradd Dolau yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'r safle ehangach wedi'i raddio'n B o ran hygyrchedd. Bydd Ysgol Gynradd Dolau yn derbyn cyllid ar gyfer mân welliannau drwy Raglen Gyfalaf Cyngor Rhondda Cynon Taf a phe bai angen gwneud unrhyw addasiadau er mwyn gwella hygyrchedd ar gyfer disgyblion ag ADY, bydd y rhain yn cael eu cynnal. | mynd rhagddo, bydd cymorth i ddisgyblion a gaiff ei ddarparu gan garfan Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn parhau ac ni fydd yn cael ei effeithio. |
| **3. AILBENNU RHYWEDD:**<br><br>*(Unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gwbl gynhwysol ac yn cael ei hadeiladu yn unol â | 1. Mae'r Cyfrifiad (2021) yn darparu data ar hunaniaeth rhywedd. Yn Rhondda Cynon Taf, 93.69% yw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddyn nhw adeg eu genedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd).* | | gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu. Bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999. Yn unol â Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999, bydd rhai ystafelloedd ymolchi y mae modd i bawb eu defnyddio ar gael yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd. | canran yr unigolion sydd o'r un rhyw â'r hyn a gofrestrwyd ar adeg eu genedigaeth, tra bod canran yr unigolion sy'n arddel hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r un a gofrestrwyd ar adeg eu genedigaeth ond sydd heb hunaniaeth benodol yn 0.14%. Mae modd dadansoddi hunaniaeth rhywedd yn Rhondda Cynon Taf ymhellach fel a ganlyn:<br><br>• Menywod drawsryweddol – 0.07%<br>• Dynion trawsryweddol – 0.07%<br>• Pobl Anneuaidd – 0.05%<br>• Pob hunaniaeth rhywedd arall – 0.03%<br>• Heb ateb – 5.95%.<br><br>Mae ymchwil sydd wedi'i gynnwys yn 'International Journal of Public Health' yn dangos bod ystafelloedd ymolchi ysgolion wedi'u nodi gan ddisgyblion sy'n amrywio o ran rhywioldeb a rhywedd (SGD) fel y mannau lleiaf diogel mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgolion. Maen nhw'n safleoedd lle mae erledigaeth eiriol, gorfforol a rhywiol yn cael ei brofi. Drwy ddarparu ystafelloedd ymolchi y mae modd i bawb eu defnyddio, mae'n bosibl y bydd yn lleihau bwlio ac erledigaeth disgyblion sy'n amrywio o ran rhywioldeb a rhywedd (SGD), yn enwedig y rheini sy'n drawsryweddol neu'n amrywio o ran rhywedd. |
| **4. PRIODASAU A PHARTNERIAETHAU SIFIL:**<br><br>*(Pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Niwtral. | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/ negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. |
| **5. BEICHIOGRWYDD A MAMOLAETH:**<br><br>*(Merched sy'n feichiog/ar gyfnod mamolaeth)* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion cyfredol deddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu ac mae'n | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgol) 1999.<br><br>Bydd yn gyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff sy'n feichiog trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. Bydd cyfleusterau gorffwys hefyd ar gael os oes angen, a hynny ar ffurf ystafell hylendid/ystafell feddygol bwrpasol. | hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. |
| **6. HIL:**<br><br>*(Grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Niwtral. | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. | 1. Dyma ddata CYBLD (2024):<br><br>• Nododd 94.6% o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau eu bod nhw'n Wyn Prydeinig<br>• Nododd 5.4% o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau eu bod nhw o unrhyw gefndir ethnig arall<br>• Does dim (0%) o ddisgyblion oedran |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ysgol statudol Ysgol Gynradd Dolau wedi'u nodi'n anhysbys.<br><br>Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd plant a theuluoedd sydd angen gwasanaethau cyfieithu, lle nad Saesneg/Cymraeg yw'r iaith gyntaf, yn cael eu cefnogi gan Wasanaeth Cyrhaeddiad Disgyblion o Gymunedau Ethnig Lleiafrifol y Garfan Cynhwysiant a Mynediad Cyngor Rhondda Cynon Taf. |
| **7. CREFYDD NEU GRED:**<br><br>*(Pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd, a allai gynnwys defnydd gan grwpiau ffydd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd | 1. Mae Cyfrifiad (2021) yn darparu data ar grefydd. Yng Nghymru, roedd nifer y bobl a nododd nad oedd gyda nhw unrhyw grefydd yn fwy na'r nifer a nododd unrhyw ymlyniad crefyddol unigol, gyda 46.5% o'r boblogaeth (1.4 miliwn) yn nodi 'Dim crefydd'. Ynghyd â'r cynnydd yn nifer y bobl a ddywedodd nad oedd gyda nhw unrhyw grefydd, roedd gostyngiad yn nifer y bobl a nododd eu bod nhw'n Gristnogion. Yng Nghymru, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa ar hyn. Gallai hyn gynnwys grwpiau crefyddol lleol. | nododd llai na hanner y boblogaeth (43.6%, 1.4 miliwn o bobl) eu bod nhw'n Gristnogion yn 2021. Mwslimaidd oedd yr ymlyniad crefyddol mwyaf nesaf yng Nghymru, gyda 2.2% o'r boblogaeth (67,000) yn uniaethu â'r ymlyniad yma yn 2021.<br><br>Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/ negyddol/andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/ anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. |
| **8. RHYWEDD:**<br><br>*(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Rheoliadau Addysg | 1. Mae data CYBLD ar gyfer 2024 yn nodi bod 466 o ddisgyblion oedran ysgol statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau – mae 230 yn fechgyn a 236 yn ferched.<br><br>Does dim tystiolaeth i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | (Mangreoedd Ysgol) 1999.<br><br>Bydd yn gyfforddus yn thermol ac yn hawdd rheoli'r tymheredd mewnol. Bydd hyn o fudd i staff sy'n feichiog, staff sy'n profi symptomau'r menopos neu staff sydd ag unrhyw gyflyrau iechyd eraill a allai gael eu gwaethygu gan amrywiadau yn y tymheredd, a hynny trwy ddarparu amgylchedd mwy cyfforddus i weithio ynddo. Bydd cyfleusterau gorffwys hefyd ar gael os oes angen trwy ystafell hylendid/ystafell feddygol bwrpasol.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Dolau yn cyflogi 57 aelod o staff, mae 4 ohonyn nhw'n ystyried eu hunain yn ddynion a 53 yn ystyried eu hunain yn fenywod. | awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/ andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/ anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. |
| **9. CYFEIRIADEDD RHYWIOL:**<br><br>*(Deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol).* | Niwtral. | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/ andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch | 1. Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/ andwyol ar y grŵp gwarchodedig yma. Serch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/ anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. | hynny, os bydd effaith anghymesur/negyddol/ anffafriol yn codi, eir i'r afael ag anghenion a chaiff yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yma ei ddiweddaru'n unol â hynny. |

Yn ogystal â hyn, oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleodd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:

| NODWEDD WARCHODEDIG | A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL? | RHOWCH FANYLION YR EFFAITH | PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA? |
|---|---|---|---|
| **1. CYMUNED Y LLUOEDD ARFOG:**<br><br>*(Unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd gan yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd y gallu i roi lleoliad i ragor o blant a fydd efallai yn symud i'r ardal hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau).<br><br>Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan Swyddog Cyswllt ysgolion rhanbarthol a fydd yn gweithio gyda phlant a theuluoedd cymuned y | 1. Mae Cyfrifiad (2021) yn darparu data ar gymuned y lluoedd arfog. Yn Rhondda Cynon Taf, mae 3.9% o ymatebwyr wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y Deyrnas Unedig (DU) neu luoedd arfog wrth gefn y DU. Nid oes data ar gael ar hyn o bryd am nifer y disgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n blant o gymuned y lluoedd arfog.<br><br>Bydd y cynigion yn cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | lluoedd arfog. | a chyfrwng Saesneg yn yr ardal, ac felly bydd modd darparu ar gyfer mwy o blant a allai symud i'r ardal hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau). |
| **2. CYNHALWYR/GOFALWYR:**<br><br>*(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd gan yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd y gallu i roi lleoliad i ragor o blant a fydd efallai yn symud i'r ardal hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd (oherwydd newid mewn amgylchiadau).<br><br>Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd plant a theuluoedd yn cael eu cefnogi gan y Cyngor.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae modd darparu cymorth pontio i ddisgyblion sy'n nodi eu bod nhw'n gynhalwyr ifainc pe bai angen. | 1. Ar yn o bryd mae dau ddisgybl yn Ysgol Gynradd Dolau sy'n gynhalwyr ifainc. |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol, yna **rhaid** cynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb llawn (Adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

**Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **YDW** | X | **NAC YDW** | |

**Enw:** Lisa Howell.

**Swydd:** Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Dyddiad: 04.09.2024**

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**NODWCH: Mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unol â'r cynigion.**

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 o Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Yn y pen draw, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Ystyriwch y grwpiau sy’n agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL | A FYDD Y CYNNIG YN CAEL UNRHYW EFFEITHIAU CADARNHAOL, NEGYDDOL NEU NIWTRAL? | RHOWCH FANYLION YR EFFAITH | PA DYSTIOLAETH SYDD WEDI'I DEFNYDDIO I ATEGU'R SAFBWYNT YMA? |
|---|---|---|---|
| **1. INCWM ISEL/TLODI O RAN INCWM:**<br><br>*(Does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl | 1. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Mae MALlC yn rhestru pob ardal fach (Ardaloedd Cynnyrch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno’r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.<br><br>Bydd hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o ddisgyblion, waeth | Ehangach Haen Is) yng Nghymru o 1 (y mwyaf difreintiedig) i 1,909 (y lleiaf difreintiedig).<br><br>Mae Ysgol Gynradd Dolau wedi'i rhestru yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is Brynna 2.<br><br>Mae MALlC yn cynnwys wyth maes o amddifadedd, sydd i gyd wedi'u llunio o ystod o ddangosyddion. Mae MALlC wedi'i greu o swm pwysol o'r sgôr amddifadedd ar gyfer pob maes. Mae'r pwysoliad yn adlewyrchu pwysigrwydd y maes fel agwedd ar amddifadedd, ac ansawdd y dangosyddion sydd ar gael ar gyfer y maes hwnnw. Y meysydd yw:<br><br>• Incwm<br>• Cyflogaeth<br>• Iechyd<br>• Addysg<br>• Mynediad at wasanaethau<br>• Tai<br>• Cymunedau Diogel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>Mae ymgysylltu â chontractwyr adeiladu yn ystod y cyfnod adeiladu hefyd yn dod â buddion cymunedol ehangach, gan gynnwys contractwyr sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth, yn ogystal â chyfleoedd addysgol a chyfleoedd noddi yn y gymuned leol.<br><br>2. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y bydd goblygiadau cost yn gysylltiedig â disgyblion o Ysgol Gynradd Dolau sy'n mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, gan gynnwys y gost o brynu gwisg ysgol newydd.<br><br>3. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y bydd costau ariannol ychwanegol i rieni/gwarcheidwaid pe baen nhw'n penderfynu cludo plentyn/plant i'r ysgol ar eu traul eu hunain. | • Yr Amgylchedd Ffisegol<br><br>Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,371 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 126 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>O ran y maes incwm, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,182 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 119 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynyddu'r lleoedd sydd ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4. Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd mewn adeilad newydd pwrpasol yr 21ain ganrif yn cynnig llawer o fanteision, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>5. Defnydd y gymuned leol a thrydydd parti, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol. | gael i ddisgyblion yn yr ardal yma mewn cyfleusterau newydd sbon y 21ain ganrif, waeth beth fo'u lefelau incwm.<br><br>Gall yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd gael effaith gadarnhaol ar argaeledd lleoedd clwb brecwast yn yr ardal, trwy greu darpariaeth newydd yn yr ysgol newydd pe bai'r ysgol yn dewis cynnig y ddarpariaeth yma.<br><br>Mae'n ofynnol i gontractwyr adrodd yn rheolaidd ar eu mentrau budd cymunedol yn erbyn targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae prosiect parhaus Rhondda Cynon Taf sy'n cwmpasu tair ysgol gynradd wedi adrodd am greu 19 o swyddi ar gyfer gweithwyr newydd ym maes adeiladu, 3 rôl i raddedigion a 7 lleoliad gwaith yn ystod 2023 yn unig. Yn ogystal â hyn, rhoddodd y Contractwr 125 awr i ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi, ac roedd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | tua hanner ohonyn nhw'n cynnwys Busnesau Bach a Chanolig (BBaChau) a Mentrau Cymdeithasol o fewn Rhondda Cynon Taf i gefnogi eu twf a hyfforddiant staff.<br><br>2. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod goblygiadau cost yn gysylltiedig â disgyblion o Ysgol Gynradd Dolau yn mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, gan gynnwys y gost o brynu gwisg ysgol newydd. Lle bo angen, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu cyfeirio at y Grant Hanfodion Ysgol sy'n rhoi cymorth i deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol. Yn aml, mae ysgolion yn cynnig cyfnod graddol lle mae modd parhau i wisgo'r gwisgoedd presennol.<br><br>3. Ar hyn o bryd, mae 466* o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau, ac mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 20.6% (96) yn byw y tu allan i'r dalgylch.<br><br>Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae’r term ‘ysgol addas’ yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo’n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg statudol (dosbarth derbyn i flwyddyn 6) a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd statudol (blwyddyn 7 i 11).<br><br>Mae tua 0.4 milltir rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r safle sydd wedi'i nodi ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle datblygiad tai Llanilid, sy’n llai na’r pellter o 1.5 milltir sy’n cael ei ganiatáu yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant o’r cartref i’r ysgol a restrir uchod. Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau gerdded i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.<br><br>Bydd gan yr ysgol newydd hefyd gyfleusterau storio beiciau diogel a bydd yr ysgol yn gweithio gyda Sustrans Cymru i ddatblygu cynllun Teithio Llesol i'r Ysgol i annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio i'r ysgol ac oddi yno.<br><br>O ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Serch hynny, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.<br><br>4. Hanes o gyflwyno adeiladau ysgol newydd yn llwyddiannus yn flaenorol ledled Rhondda Cynon Taf a'u heffaith gadarnhaol ar yr ysgol a'r gymuned leol a thrydydd parti, gan gynnwys gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Yn enwedig pa mor hawdd yw mynediad at fannau chwarae awyr agored yr ystyrir eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar les.<br><br>5. Tra bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau gwahanol, un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw gwreiddio defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg, wedi'i gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | arwain at ddiffyg hyder ac erydu sgiliau Cymraeg, fel y cyfryw, ac er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen cynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd pobl hŷn (h.y. rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach), ynghyd â disgyblion, yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion lleol er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.<br>Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa ar hyn. |
| **2. CYFOETH ISEL A/NEU DIM CYNILION**<br><br>*(Digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol)* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a | 1. Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,371 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 126 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>O ran y maes incwm, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,182 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.<br><br>Bydd hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o ddisgyblion, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>2. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y bydd goblygiadau cost yn gysylltiedig â disgyblion o Ysgol Gynradd Dolau sy'n mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, | difreintiedig. Mae'n safle 119 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynyddu'r lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion yn yr ardal yma mewn cyfleusterau newydd sbon ar gyfer yr 21ain ganrif, waeth beth fo'u cyfoeth.<br><br>2. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai fod goblygiadau cost yn gysylltiedig â disgyblion o Ysgol Gynradd Dolau yn mynychu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd, gan gynnwys y gost o brynu gwisg ysgol newydd. Lle bo angen, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu cyfeirio at y Grant Hanfodion Ysgol sy'n rhoi cymorth i deuluoedd ar incwm isel i brynu gwisg ysgol.<br><br>Yn aml, mae ysgolion yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gan gynnwys y gost o brynu gwisg ysgol newydd.<br><br>3. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, efallai y bydd costau ariannol ychwanegol i rieni/gwarcheidwaid pe baen nhw'n penderfynu cludo plentyn/plant i'r ysgol ar eu traul eu hunain.<br><br>4. Mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg cyfrwng Cymraeg i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Dolau ar hyn o bryd mewn adeilad newydd pwrpasol yr 21ain ganrif yn cynnig llawer o fanteision, beth bynnag yw eu statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>5. Defnydd y gymuned leol a thrydydd parti, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>6. Caiff cyfleuster Cylch Meithrin newydd ei gynnig yn rhan o ddatblygiad yr ysgol newydd. | cynnig cyfnod graddol lle mae modd parhau i wisgo'r gwisgoedd presennol.<br><br>3. Ar hyn o bryd, mae 466* o ddisgyblion oedran ysgol statudol yn mynychu Ysgol Gynradd Dolau, gyda 20.6% (96) ohonyn nhw'n byw y tu allan i'r dalgylch.<br><br>Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Cyngor yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' diogel yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg statudol (dosbarth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | derbyn i flwyddyn 6) a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd statudol (blwyddyn 7 i 11).<br><br>Mae tua 0.4 milltir rhwng Ysgol Gynradd Dolau a'r safle sydd wedi'i nodi ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle datblygiad tai Llanilid, sy’n llai na’r pellter o 1.5 milltir sy’n cael ei ganiatáu yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant o’r cartref i’r ysgol a restrir uchod. Pe bai’r cynnig yn mynd rhagddo, mae llwybr cerdded diogel i ddisgyblion Ysgol Gynradd Dolau gerdded i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd.<br><br>Bydd gan yr ysgol newydd hefyd gyfleusterau storio beiciau diogel a bydd yr ysgol yn gweithio gyda Sustrans i ddatblygu cynllun Teithio Llesol i'r Ysgol i annog dulliau mwy cynaliadwy o deithio i'r ysgol ac oddi yno. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | O ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae bws gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n rhedeg yn rheolaidd. Serch hynny, dydy cost a gweithredu trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal ddim yn rhan o gylch gwaith y Cyngor.<br><br>**Ffigurau yn seiliedig ar ddata gwirioneddol o 8 Ebrill 2024.*<br><br>4. Cyflwyno adeiladau ysgol newydd yn llwyddiannus yn flaenorol ledled Rhondda Cynon Taf a'u heffaith gadarnhaol. Yn enwedig pa mor hawdd yw mynediad at fannau chwarae awyr agored yr ystyrir eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar les.<br><br>5. Tra bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau gwahanol, un o nodau Rhaglen Waith <u>Cymraeg 2050</u> Llywodraeth Cymru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yw gwreiddio defnydd cadarnhaol o’r Gymraeg, wedi’i gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder ac erydu sgiliau Cymraeg, fel y cyfryw, ac er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen cynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd pobl hŷn (h.y. rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach), ynghyd â disgyblion, yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion lleol er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa ar hyn.<br><br>6. Bydd creu Cylch Meithrin newydd yn cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant sydd ar gael yn yr ardal leol ac yn ategu'r ddarpariaeth gofal plant dwy iaith bresennol yn Ysgol Gynradd Dolau. Mae'r ddarpariaeth bresennol eisoes yn rhan o'r Cynnig Gofal Plant sy'n cefnogi rhieni/gwarcheidwaid gyda chost gofal plant. Mae'n debygol y bydd y Cylch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Meithrin hefyd yn rhan o Gynnig Gofal Plant Cymru i ddarparu lleoedd gofal plant wedi'u hariannu i gefnogi rhieni gyda chostau gofal plant. |
| **3. AMDDIFADEDD MATEROL:**<br><br>*(Methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati).* | Cadarnhaol. | 1. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, cydnabyddir y gallai fod costau ariannol ychwanegol i rai rhieni/gwarcheidwaid pe baen nhw'n penderfynu cludo eu plentyn/plant i weithgareddau allgyrsiol ar eu traul eu hunain.<br><br>2. Defnydd y gymuned leol a thrydydd parti, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>3. Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl oed ysgol gynradd. Bydd y cyfleusterau arlwyo yn Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim. | 1. Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu gweithgareddau allgyrsiol, ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol.<br><br>Fel sy'n wir ledled Rhondda Cynon Taf, ni fydd cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn unig. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol arferol i blant sy'n byw ymhellach na 1.5 milltir o'u dalgylch ysgol yn unig.<br><br>Dylai argaeledd llwybrau cerdded diogel ac annog pobl i deithio'n llesol olygu bod modd i bawb fanteisio ar weithgareddau allgyrsiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2. Tra bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau gwahanol, un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw gwreiddio defnydd cadarnhaol o'r Gymraeg, wedi'i gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder ac erydu sgiliau Cymraeg, fel y cyfryw, ac er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen cynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd pobl hŷn (h.y. rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach), ynghyd â disgyblion, yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion lleol er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.<br><br>Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa ar hyn.<br><br>3. Bydd Ysgol Gynradd Dolau a'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn darparu ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd cyfleusterau cegin a bwyta newydd sbon yn darparu profiad bwyta o ansawdd uchel i bob disgybl. |
| **4. AMDDIFADEDD O RAN ARDAL:**<br><br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus).* | Cadarnhaol. | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol. | 1. Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,371 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 126 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>O ran y maes incwm, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,182 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 119 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.<br><br>Bydd hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o ddisgyblion, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol. | Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, yr ysgol newydd fydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg y dalgylch ar gyfer safle datblygiad tai Llanilid, gydag Ysgol Gynradd Dolau yn ysgol gynradd Saesneg y dalgylch. Bydd hyn yn cynyddu argaeledd addysg oedran cynradd yn yr ardal leol, ynghyd â chyfleusterau chwaraeon newydd ar safle'r ysgol newydd.<br><br>Bydd yn ofynnol i gontractwr adeiladu'r ysgol newydd gyflawni yn erbyn targedau buddion cymunedol penodol ar gyfer yr ardal leol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys targedau ar gyfer creu swyddi, rhoddion ariannol a rhoddion oriau gwaith i fentrau/busnesau cymunedol lleol ac oriau a roddir i addysg mewn ysgolion lleol.<br><br>Yn rhan o gynllun parhaus a oedd yn cynnwys adeiladu tair ysgol gynradd newydd yn ardal Taf-elái, Rhondda |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cynon Taf, cafodd ystod o fentrau cymunedol eu cefnogi drwy gydol 2023. Roedd mentrau'n cynnwys rhoi llafur a deunyddiau ar gyfer gwaith tirlunio mewn dwy ysgol gynradd, noddi timau chwaraeon lleol yn Llanilltud Faerdref a Phentre'r Eglwys i brynu cit newydd i'r tîm, ariannu tripiau Nadolig i Ysgol Gynradd Pen-y-gawsi ac ailwynebu maes parcio ar gyfer Clwb Bowlio Pont-y-clun. |
| **5. CEFNDIR ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL:**<br><br>*(Dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Cadarnhaol | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a | 1. Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,371 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 126 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>O ran y maes incwm, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Yn ogystal, bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.<br><br>Bydd hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o ddisgyblion, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>2. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, cydnabyddir y | Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,182 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 119 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Yn rhan o fesurau i gyflawni targedau buddion cymunedol Llywodraeth Cymru, bydd y contractwr adeiladu yn rhoi oriau gwaith i gefnogi busnesau lleol, mentrau cymdeithasol a chyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth lleol.<br><br>Mewn prosiect parhaus yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, mae'r contractwr wedi cymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd lleol ym Mhrifysgol De Cymru, Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Garth Olwg a Ffair Swyddi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gallai fod costau ariannol ychwanegol i rai rhieni/gwarcheidwaid pe baen nhw'n penderfynu cludo eu plentyn/plant i weithgareddau allgyrsiol ar eu traul eu hunain. | ym Mhontypridd. Mae cymryd rhan yn yr achlysuron yma'n creu cyfleoedd i drigolion lleol a phobl ifainc ddysgu rhagor am lwybrau amrywiol i yrfa ym maes adeiladu nad ydyn nhw efallai wedi bod yn effro iddyn nhw.<br><br>2. Cyfrifoldeb yr ysgolion unigol yw darparu gweithgareddau allgyrsiol, ac er eu bod nhw'n ddarpariaethau pwysig, dylid nodi nad ydyn nhw'n ofyniad statudol.<br><br>Fel sy'n wir ledled Rhondda Cynon Taf, ni fydd cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gael ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol yn unig. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol arferol yn unig.<br><br>Dylai argaeledd llwybrau cerdded diogel ac annog pobl i deithio’n llesol olygu bod modd i bawb fanteisio ar weithgareddau allgyrsiol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6. ANFANTAIS ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL:**<br><br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais).* | Cadarnhaol | 1. Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 , bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd y ddarpariaeth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynnwys:<br><br>• Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.<br>• Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.<br>• Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.<br>• Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyriadau ADY.<br>• Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod | 1. Yn gyffredinol, mae'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,371 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 126 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>O ran y maes incwm, mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar gyfer Ysgol Gynradd Dolau (Brynna 2) yn safle 1,182 allan o 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru, sy'n ei gosod ymhlith y 50.0% lleiaf difreintiedig. Mae'n safle 119 allan o 154 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn Rhondda Cynon Taf.<br><br>Bydd adeiladu'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn dod â manteision cymunedol a gaiff eu darparu gan y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.<br>• Mesurau rheoli traffig gwell.<br><br>Bydd yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn gweithredu'n ysgol Carbon Sero-Net.<br><br>Bydd hyn yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i ragor o ddisgyblion, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol.<br><br>2. Defnydd y gymuned leol a thrydydd parti, waeth beth fo'u statws economaidd-gymdeithasol. | contractwr adeiladu fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Fel sydd wedi'i amlinellu uchod, bydd y mesurau yma'n cefnogi addysg a hyfforddiant, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol yn yr ardal leol.<br><br>2. Tra bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cyd-destunau gwahanol, un o nodau Rhaglen Waith Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw gwreiddio defnydd cadarnhaol o’r Gymraeg, wedi’i gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio’r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae diffyg cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn arwain at ddiffyg hyder ac erydu sgiliau Cymraeg, fel y cyfryw, ac er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, mae angen |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cynyddu'r nifer o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Bydd pobl hŷn (h.y. rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach), ynghyd â disgyblion, yn cael eu cefnogi a'u hannog i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hysgolion lleol er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg.<br><br>Bydd defnydd y gymuned leol a thrydydd parti o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cael ei annog yn frwd. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd fel bod modd i'r gymuned leol a thrydydd parti ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, a hynny'n ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai disgyblion |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | presennol a rhieni/gwarcheidwaid elwa ar hyn.<br><br>Bydd cyfleusterau chwaraeon newydd ar safle'r ysgol newydd arfaethedig ar gael i'r gymuned eu defnyddio, gan gynyddu'r ddarpariaeth chwaraeon yn y gymuned. |

## ADRAN 4 – ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN

Dylech chi ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol/andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

**4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur/negyddol/andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei chael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau fydd yn cael eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi. Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar grŵp gwarchodedig.

**4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.**

Does dim tystiolaeth i awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur/negyddol/andwyol ar grŵp gwarchodedig.

**4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.**

- Mae dadansoddiad data yn seiliedig ar ddata sy'n deillio o'r Cyfrifiad Cenedlaethol (2021), CYBLD (2024) a'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) oni nodir yn wahanol
- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor
- Ymresymiad ansoddol wedi'i gasglu gan Garfan Eiddo'r Cyngor
- Darpariaeth adeiladau ysgol newydd blaenorol ledled Rhondda Cynon Taf a'u heffaith gadarnhaol ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach. Mae modd gofyn am yr effeithiau cadarnhaol yma gan Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor.

**4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.**

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 9 Medi 2024 a daeth i ben am 5pm ar 25 Hydref 2024.

Cafodd cyfarfodydd wyneb yn wyneb eu trefnu gyda'r Cyngor Ysgol, y Corff Llywodraethu, aelodau o staff a chymuned ehangach Ysgol Gynradd Dolau.

Roedd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Roedd croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21ain Ganrif
Canolfan Menter y Cymoedd
Abercynon
CF45 4SN

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, sicrhaodd y Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Cafodd sesiwn galw heibio hefyd ei threfnu fel y gallai aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Fe wnaeth Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor fonitro'r cynnig yma. Mae adborth o’r ymgynghoriad wedi’i goladu a’i grynhoi, ac mae Adroddiad Ymgynghori wedi’i gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Mae’r Adroddiad Ymgynghori yma ar gael i bawb fwrw golwg arno ar wefan y Cyngor, ac mae modd cael copïau ar gais o’r cyfeiriad a nodir ar dudalen pedwar o’r Ddogfen Ymgynghori.

**4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol Statudol?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **YDW** | X | **NAC YDW** | |

## ADRAN 5 – MONITRO AC ADOLYGU

**5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:**

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018). Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (2il Rifyn) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir.
- Gwneud newid a reoleiddir i ysgol a gynhelir.

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 25 Hydref 2024.

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda'r Cyngor Ysgol y Corff Llywodraethu, aelodau o staff a chymuned ehangach Ysgol Gynradd Dolau.

Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'. Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ysgolion yr 21ain Ganrif
Canolfan Menter y Cymoedd
Abercynon
CF45 4SN

Neu

E-bost: cynllunioysgolion@rctcbc.gov.uk

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i

hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori yma ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu.

Bydd sesiwn galw heibio hefyd yn cael ei threfnu fel bod modd i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn.

Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig yma.

**5b) Erbyn pryd bydd raid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?**

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 9 Medi 2024 ac yn dod i ben am 5pm ar 25 Hydref 2024. Cafodd adborth o'r ymgynghoriad ei goladu a'i grynhoi, ac mae adroddiad ar yr ymgynghoriad wedi'i gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Mae'r adroddiad yma ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 4 y ddogfen ymgynghori.

Mae Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) wedi trafod Adroddiad yr Ymgynghoriad ac wedi penderfynu, yn seiliedig ar yr adborth, y dylid bwrw ymlaen â'r cynnig.

Gan fod Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor cyn pen 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn trafod deilliannau'r hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebiadau yma ar gael i bawb ei ddarllen ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen pedwar y ddogfen ymgynghori.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny.

**5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?**

Bydd swyddogion o Garfan Ysgolion yr 21ain Ganrif yng Nghyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn monitro'r cynnig.

**5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?**

Mae pob prosiect Ysgolion yr 21ain Ganrif yn destun adolygiad 'Gwersi a Ddysgwyd' ar ôl ei gwblhau. Bydd deilliannau'r prosiect (cadarnhaol a negyddol) yn llywio penderfyniadau a wneir ar brosiectau yn y dyfodol.

## ADRAN 6 – ADOLYGU

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod.

| SYLWADAU SWYDDOGION Y PANEL ADOLYGU | DYDDIAD YSTYRIED Y CYNNIG | DISGRIFIAD O (UNRHYW) NEWIDIADAU A WNAED GAN Y SWYDDOGION Y PANEL ADOLYGU |
|---|---|---|
| Gwnaed y sylwadau canlynol gan Swyddogion y Panel Adolygu:<br><br>**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol:**<br><br>• Angen dysgu o enghreifftiau da o Asesiad Effaith rydych chi wedi'u cwblhau yn y gorffennol a defnyddio gwybodaeth y garfan yn gynnar.<br>• Asesiad Effaith Cadarn, sy'n gofyn am fân newidiadau.<br>• Byddai'r Asesiad Effaith yn elwa o ddata ymgynghori/yn cael ei ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad.<br>• Adran 4 – Mae angen cynnwys | 12.11.2024 | Mae'r meysydd canlynol o'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma wedi'u diweddaru yn dilyn sylwadau'r Panel Adolygu Swyddogion:<br><br>• Oedran:<br>  ○ Mae data rhagolygon nifer y disgyblion wedi'i gynnwys.<br>  ○ Mae data proffil staffio wedi'i gynnwys, ochr yn ochr â sut mae'r cynnig yma'n yn debygol o effeithio ar staff.<br>• Crefydd neu Gred:<br>  ○ Mae data ychwanegol wedi'i gynnwys.<br>• Rhywedd:<br>  ○ Mae data ychwanegol wedi'i |

| | | |
|---|---|---|
| sylwadau ymgynghori yn dilyn ymgysylltu.<br><br>**Data:**<br><br>• Defnydd da o ffynonellau data cyfun.<br>• Gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar y newid dros amser o ran darpariaeth ADY a'r galw am leoedd i nodi unrhyw dueddiadau, er y cydnabuwyd bod ffynonellau data ar gyfer tueddiadau'r dyfodol yn brin (Oedran – Cyfle i adeiladu ar y defnydd o gyfleusterau yn y gymuned).<br>• Darparu cyfleusterau golchi sy'n niwtral o ran rhywedd mewn ysgolion – Os oes data mewnol eisoes gan ysgolion eraill, byddai'n ddefnyddiol cynnwys tystiolaeth gadarnhaol ei fod yn helpu i wneud i blant deimlo'n fwy diogel.<br><br>**Sylwadau Annibynnol:**<br><br>• Asesiad cadarn o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n mynd i'r afael â chwestiynau. | | gynnwys.<br>• Anabledd:<br>  ○ Mae data ychwanegol wedi'i ddarparu.<br>• Hil:<br>  ○ Mae data ychwanegol wedi'i ddarparu ynglŷn â chymorth i ddisgyblion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. |
| **SYLWADAU'R YMGYNGHORIAD** | **DYDDIAD YSTYRIED Y CYNNIG** | **DISGRIFIAD BYR O (UNRHYW) WELLIANNAU A WNAED YN DILYN YR YMGYNGHORIAD** |
| Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf ddyletswydd gyfreithiol i | 25.10.2024 | O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, sef 65.7%, na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o'r nodweddion a gafodd eu |

| | | |
|---|---|---|
| ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion gyda nhw. Felly yn rhan o’r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn canlynol:<br><br>1. Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:<br><br>• Rhyw<br>• Oedran<br>• Ethnigrwydd<br>• Anabledd<br>• Rhywioldeb<br>• Crefydd neu gred<br>• Hunaniaeth rhywedd:<br>• Statws perthynas<br>• Beichiogrwydd<br>• Dewis Iaith<br><br>O’r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, sef 65.7%, na fyddai’r cynnig yn cael unrhyw effaith ar unrhyw un o’r nodweddion a gafodd eu rhestru. Dywedodd 28.1% y byddai’r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd ‘Dewis Iaith’, dywedodd 3.1% y byddai’r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd ‘Anabledd’ ac, unwaith eto, dywedodd 3.1% y byddai’r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Statws perthynas'. | | rhestru. Tra:<br><br>• Dywedodd 28.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Dewis Iaith'.<br>• Dywedodd 3.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Anabledd'.<br>• Dywedodd 3.1% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd 'Statws Perthynas'.<br><br>Mae dadansoddiad pellach o'r ymatebion a ddaeth i law yn dangos bod yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n dewis cael eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg symud i ysgol newydd a gallai hyn amharu ar eu haddysg. Mewn ymateb i'r pryder yma, rhagwelir na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor ar ddisgyblion, mae'r wybodaeth yma wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori.<br><br>Rydyn ni'n deall y bydd rhai disgyblion efallai'n teimlo'n bryderus ar y dechrau am y posibilrwydd o symud i ysgol newydd ar safle newydd. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd cymorth wedi'i dargedu ar gyfer yr holl ddisgyblion o Ysgol Gynradd Dolau. Mae pontio cadarnhaol ac ystyrlon yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth |

| | | |
|---|---|---|
| | | academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgyfarwyddo ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff.<br><br>Bydd cyngor a chefnogaeth yn cael ei ddarparu gan y Cyngor i staff o Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gymuned Tonyrefail i sicrhau bod y broses bontio mor llyfn a di-dor â phosibl.<br><br>Mae Carfan Trochi yn y Gymraeg y Cyngor yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o addysg cyfrwng Saesneg. Bydd y cymorth yma ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei ddefnyddio a bydd Cyngor Rhondda Cynon Taf yn sicrhau bod adnoddau digonol o fewn y garfan i gefnogi'r holl ddisgyblion sy'n dymuno trosglwyddo.<br><br>Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, dywedodd canran fach o ymatebwyr y byddai'n effeithio ar eu nodwedd anabledd a'u nodwedd statws perthynas gan y byddai modd i hyn olygu, i deuluoedd â mwy nag un plentyn, y gallai rhai plant fynd i'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a gallai rhai plant fynd i Ysgol Gynradd Dolau, sy'n golygu trefniadau lluosog ar gyfer gollwng a chasglu plant ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae Cyngor Rhondda |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynon Taf yn nodi mai dewis y rhiant/gwarcheidwad/cynhaliwr (gofalwr) yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (005/2013), ac os yw hyn yn rhywbeth y mae rhieni/gwarcheidwaid ei eisiau ar gyfer eu plant, yna fe allai hynny fod yn wir.<br><br>Serch hynny, nodir y bydd yr ysgolion yn agos at ei gilydd felly dylai unrhyw effaith fod yn fach iawn. |

## ADRAN 7 – CRYNODEB O'R EFFEITHIAU GAN Y CYNNIG

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi’r asesiad effaith ochr yn ochr â’r adroddiad.

I grynhoi, mae'r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi effeithiau cadarnhaol a niwtral, a does dim effeithiau negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Gallai'r cynnig ddod ag effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol ar draws yr holl grwpiau sy’n agored i niwed sydd wedi'u nodi o dan y penawdau anfantais economaidd-gymdeithasol.

## ADRAN 8 – AWDURDODI

**Swyddog Arweiniol:**

**Enw:** Lisa Howell.

**Swydd:** Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion – Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**Dyddiad:** 4 Medi 2024

Rydw i’n argymell bod y cynnig:

| | |
|---|---|
| Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw welliannau | X |
| Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu | |
| Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. | |

**Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:**

**Enw:** Andrea Richards.

**Swydd:** Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant – Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif

**Dyddiad:** 4 Medi 2024

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet/Uwch Reolwyr y Cyngor.